**AC-09-01 (cof)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Rhagfyr 2001 | |
| **Amser:** | 2.00pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn Bresennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Lew Hughes | Swyddfa’r Archwilydd Cyffredinol |
| | Dave Powell | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad |
| | Angela Parkes | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| | Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

**Papur**: AC-09-01(p.1)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cymerodd Dai Lloyd le Dafydd Wigley, cymerodd Lorraine Barrett le Janice Gregory a chymerodd Eleanor Burnham le Kirsty Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones.
2. Cynhaliodd y Pwyllgor ail sesiwn cymryd tystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffrediol Cymru ar 'Gyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol', a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2001.
3. Amlinellodd y Cadeirydd farn y Pwyllgor ei bod yn bwysig rhoi'r cyfle i'r rhai hynny a wnaeth y penderfyniadau a amlinellir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ddweud sut roeddent yn gweld pethau.
4. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol bod Swyddog Cyfrifo presennol Cyngor Celfyddydau Cymru yn cytuno â'r adroddiad o ran y ffeithiau a'r dehongliad yn unol â chonfensiynau archwilio presennol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gamgymeriadau yn y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad. Ymgymerodd y tystion â'r dasg o roi cyflwyniad i'w ystyried gan y Pwyllgor, yn amlinellu eu pryderon ynglyn â rhai o ganfyddiadau'r adroddiad.
5. Bydd trawsgrifiad ferbatim o'r eitem hon yn atodedig fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Robert Edge | Cyn Gyfarwyddwr Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Syr Richard Lloyd Jones | Cyn Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Emyr Jenkins | Cyn Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Joanna Weston | Cyn Brif Weithredwraig a Chyfarwyddwraig Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: AC-08-01(min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 3 – Papurau i'w nodi**

| Teitl | Cyfeirnod y papur |
|---|---|
| Cais i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Archwilio – Llythyr gan Syr Richard Lloyd Jones i Glerc y Pwyllgor | AC-09-01(p.2) |
| Cais i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Archwilio – Llythyr gan Emyr Jenkins i Glerc y Pwyllgor | AC-09-01(p.3) |
| Gohebiaeth gan Matthew Prichard – Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol | AC-09-01(p.4) |
| Gohebiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru – Nodyn ar Gostau Rhyngwyneb Dylunio a gostyngiad y prif gontractwr yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol | AC-09-01(p.5) |
| Gohebiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru – Nodyn ar wybodaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 22 Tachwedd 2001. | AC-09-01(p.6) |

1. Nododd y Pwyllgor y papurau.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00pm.